GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

Cyswllt: Amanda Williams
Llysoedd Barn Aberhonddu
01874 615033 (Llun – Mer)

www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk

Datganiad Newyddion

Datganiad Newyddion

2ll Hydref 2006

WELA' I CHI TU ALLAN I'R LLYS: DYFED POWYS YN CEFNOGI YMGYRCH I HYRWYDDO CYFRYNGU

Mae **Ardal Dyfed Powys o Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi** yn cynnal digwyddiadau i gefnogi'r Wythnos Gyfryngu Genedlaethol, ymgyrch genedlaethol dros ddatrys mwy o anghydfodau y tu allan i'r llys.

Hydref 9 – 13 yw'r Wythnos Gyfryngu Genedlaethol, ac mae'n hyrwyddo cyfryngu fel ffordd fwy hyblyg, cyflym a chost effeithiol o ddatrys anghydfod na mynd i'r llys.

Yn ogystal â chreu amgylchedd llai gelyniaethus lle bydd partïon yn gallu trafod asgwrn eu cynnen, mae cyfryngu hefyd yn caniatáu canlyniadau mwy hyblyg na'r rhai sydd ar gael i farnwr - er enghraifft, cyfraniadau at elusen, ymddiheuriad neu setliad y cytunir arno gan y ddwy ochr. Mae cyfryngu hefyd yn broses gyflymach na gwrandawiad llys llawn. Mae'r rhan fwyaf o anghydfodau sifil a gaiff eu datrys trwy gyfryngu, megis hawliadau bychain, yn cymryd oddeutu pum wythnos o gyfnod cyflwyno'r hawliad, ond mae'r cyfnod rhwng hawliad a gwrandawiad llys llawn yn cymryd cyfartaledd o 13 wythnos.

Mae'r digwyddiadau a gynhelir yn ystod cyfnod yr Wythnos Gyfryngu Genedlaethol yn cynnwys:
Cyflwyniad i Dywyswyr Llys yn Llys Sirol Aberystwyth ddydd Gwener 13eg Hydref 2006 am 12:00 hanner dydd; a
Desg gymorth Cyfryngu yn Llysoedd Barn Aberhonddu ddydd Mercher 1af Tachwedd 2006, rhwng 10:00 a 15:00

Wrth lansio'r ymgyrch, dyma oedd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Sifil, Cathy

Ashton, i'w ddweud:
"Gellid diffinio cyfryngu fel helpu pobl i gael sgyrsiau anodd. Mae'n dod yn ddylanwad cynyddol gadarnhaol ym mywydau pobl, wrth eu helpu i ddatrys ystod o anghydfodau - o gymdogion anghymdeithasol i landlordiaid diegwyddor, o hawliadau bychain unigol i anghydfodau masnachol sylweddol, o rannu eiddo ar ôl chwalfa perthynas i benderfyniadau sensitif ynglŷn â gofal plant.

'Gall mynd ag achosion trwy'r llys fod yn brofiad dychrynllyd sy'n dreth ar amser ac yn straen - heb sôn am fod yn gostus. Mae cyfryngu yn opsiwn sy'n gadael i bartïon drafod asgwrn y gynnen mewn amgylchedd llai ffurfiol i unioni gwahaniaethau ac, yn anad dim, cytuno ar setliad yn hytrach na phennu un. Gall hyn fod yn arbennig o fuddiol pan fydd perthynas yn parhau ar ôl datrys anghydfod - megis mewn achosion sy'n ymwneud â theulu neu gyflogaeth."

Dywedodd Luigi Strinati, Cyfarwyddwr Ardal GLIEM yn Nyfed Powys: 'Pan ddaw pobl i'r llys, byddant yno bob tro bron oherwydd bod sefyllfa ddifrifol iawn yn eu bywydau, a byddant dan straen ac angen cymorth. Gall llys sy'n gallu cynnig gwasanaeth cyfryngu effeithlon gyfrannu at les y defnyddwyr lleol a wasanaetha.'

Gellir defnyddio cyfryngu i ddatrys pob math o anghydfodau, gan gynnwys materion yn ymwneud â thai, anghydfodau busnes, hawliadau bychain, hawliadau dyled, anghydfodau am derfynau, anghydfodau cyflogaeth, anghydfodau gyda chontractau, hawliadau anaf personol ac esgeulustod yn ogystal ag anghydfodau cymunedol megis materion yn ymwneud â niwsans neu harasio, a defnyddir cyfryngu teulu i ddatrys sefyllfaoedd ariannol, materion yn ymwneud ag eiddo a threfniadau gofal plant, pan fydd teulu neu berthynas yn chwalu.

Gall unrhyw un gael gwybod mwy am gyfryngu trwy gysylltu â llinell gymorth genedlaethol Cyfryngu ar 0845 60 30 809/www.nationalmediationhelpline.com neu linell gymorth Cyfryngu Teulu 0845 60 27 627/www.familymediationhelpline.co.uk.

Ceir mwy o wybodaeth am yr Wythnos Gyfryngu Genedlaethol o http://hmcourts-service.gov.uk/mediationweek